# Cyngor Cymuned Pentir

## Confodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos am 7.00pm Nos Fercher 26ain o Fehefin 2024

1. Presennol
   Cyng L A James Cadeirydd; Cyng I Ellis; Cyng D Jones-Morris; Cyng J Pierce; a'r Cyng B Jones hefyd yn bresennol y Clerc

2. Ymddiheuriadau

3. Cod Ymddygiad
   Cadeirydd yn datagan ei bod yn ymddiredolwraig ar Bwyllgor Rheoli y Ganolfan. Cadarnhawyd hefyd mae yno yn cynrychioli y Cyngor mae hi a felly nad oes angen datgan buddiant

4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 29 -05-2024
   Derbynwyd fel cofnod cywir ar gynnig Cyng I Ellis gafodd ei eilio gan y Cyng D Jones-Morris

5 Materion yn codi o'r cofnodion

Nodwyd fod peth gwaith angen ei wneud i adolygu y polisiau cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn eu mabwysiadu am eleni Cyng L A James ymgymeryd a llawer iawn o'r gwaith a bellach wedi dod a polisi i ymdrin a cheisiadau Nawdd.

Bydd angen cyfieithu y polisi yma yn ogystal a Gweddill y polisiau arwahan i'n Polisi Iaith a'r Rheolau Sefydlog sydd eisioes wedi cael eu cyfieithu

**Cytunwyd i'r Is Bwyllgor neilltuo gyfarfod ddiwedd Awst i ddim ond i ymdrin a Polisiau**

6 Adroddiad Ariannol

i. Mantolen Ariannol

Fantolen ariannol wedi ei dosbarthu yn dangos £23,616.14 yn y Cyfrif Cyfredol a £40,981.38 yn y Cyfrif Cadw

2. Cofrestr Risg/Polisia Gweler 5 uchod

3. Cadarnhau Taliadau a taliadau angen sylw
   Argymell i'r Cyngor Llawn fod y canlynnol i'w talu Cyflog Mis Mehefin £ 693.64
   H M R C Mis 3 £ 173.20 **Nodwyd nad oedd y Clerc wedi derbyn llyfryn slipiau talu gan HMRC a bod y 3 Mis yn ddyledus**
   Wyn Lewis Torri gwair Mai £ 880.00 Cymen cyfieithu Mai £400.56
   E Jones Ink PC World/Curry's £ 123.98 Garddio ychwanegol £789.11
   Archwilio Cymru 2021-22 £235.00 a 2022-23 £200.00 **Argymell talu y 2 hefo un siec**

4. Ceisiadau Nawdd Dim cais i lawr ondc Ysgol y Garnedd wedi holi ond dim cais di cyrraedd

5. Prosiectau
   a. Ysgol Y Faenol Y Drwydded bellach yn ei lle ag wedi ei arwyddo a cyfarfod safle wedi digwydd i drafod manylion sut byddai y maes parcio yn edrych yn Mis Medi ar gychwyn Tymor yr Hydref
   b. Cais gwybodaeth – Diweddariad Y cais wedi ei ymateb iddo ond yn dal i ddod yn ol yn holi am fwy o fanylion – mae uchafswm cost ag oriau yn gallu ei defnyddio yn ogystal a beth sy'n dderbynniol o ran swmp gwaith all Cyngor Cymuned bychan ymdopi ag o

c. Capel y Fynwent Prisio/ Cyngor am y llorio Wedi derbyn Cyngor ac amcanbris gan un Cwmni lleol

_11 I'w trafod hefyd

Ymddiswyddiad aelod o'r I B C

Daeth llythyr o ymddiswyddiad gan y Cyng J Lewis yn datgan oherwydd ei fod allan o'r wlad yn aml ac yn gorfod ymddiheuro teimlai nad oedd yn gallu cynrychioli ei gymuned yn ddigonnol Mae hyn yn golygu fod bellach 3 sedd wag achlysurol yn y Cyngot 2 yn Wars Glasinfryn ag 1 yn Ward Faenol

Cyng I Ellis

a) Llwybr Llesol Penrhos Diweddariad (cyffordd Coed y Maes) ( croesfan Ysbyty Gwynedd)
Adroddodd y Cynghorydd iddo fod wedi cysylltu a Swyddog Traffig Cynor Gwynedd ynglyn a'r ddau fater sy'n pery pryder iddo ag i'w gymdogion oherwydd fod y tro allan o Coed y Maes yn beryglus a bod y Groesfan ar y cynlluniau gwreiddiol ond bellach oherwydd cwyn un person wedi ei thynnu allan o'r cynlluniau
**Disgwyl ymateb yn ol gan y Swyddog**

b) Adborth cyfarfod safle Maes Parcio Canolfan Penrhosgarnedd gyda swyddogion Cyngor Gwynedd.
Bu Cyfarfod rhyngddo a Swyddogion o Wynedd ynglyn a chynllunio y Maes Parcio Bydd gwastraff man yn cael ei osod a'i rowlio/galedu dros wyliau yr Ysgol a llwybr diogel yn cael ei farcio tuag at gefn yr Ysgol a thrwy giat cerddwyr fydd yn cael ei gosod ar y ffin rhwng y Maes parcio a Iard yr Ysgol
Bydd arwydd yn cael ei osod yn datgan pryd gaiff rhieni ddefnyddio y maes-parcio o ollwng a chodi ei plant
Bydd mannau parcio yn cael eu paentio a chael eu ail-baentio bob rhyw 6 wythnos neu fel bydd angen

c) Goleuadau Nadolig Penrhosgarnedd
Cyng yn awyddus i sicrhau lleoliadau yn lampau lle bydd y goleuadau yn cael eu gosod arnynt ag am gerdded a nodi y rhifau sydd ar y lampau er mwyn hwyluso y gwaith i'r adran Goleuadau Stryd

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00